

Cenn@d

IONAWR 25 2023

YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU RHIF 100

Cwmni Traidcraft yn galw'r gweinyddwyr

Ar 20 Ionawr eleni daeth y newyddion trist fod cwmni Traidcraft, yn dilyn nifer o flynyddoedd heriol, bellach yn nwylo'r gweinyddwyr. Aled Davies sy'n olrhain yr hanes ...

Tristwch o'r mwyaf oedd clywed bod y cwmni hyrwyddo a gwerthu cynnyrch Masnach Deg wedi cael ei orfodi i gymryd y cam anodd i'w roi ei hun yn nwylo'r gweinyddwyr yn ystod yr wythnos a aeth heibio. Gwnaed colledion sylweddol o rhwng £300,000 a £400,000 yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a hynny yn bennaf oherwydd effaith Covid. Prif incwm Traidcraft oedd gwerthiant a wnaed gan y bobl hynny oedd yn gwerthu cynnyrch yn lleol mewn eglwysi. Ond daeth hynny i ben mewn modd dramatig dair blynedd yn ôl, ac ers hynny ni lwyddwyd i adfer y fasnach i'r un graddau.

Sefydlwyd Traidcraft fel menter ffydd Gristnogol yn 1979. Fe'i lanswyd o lawr uchaf warws o'r 1920au yng nghanol Newcastle upon Tyne gan Richard Adams, gyda chwe aelod o staff. Lluniwyd y catalog cyntaf â llaw, yn cynnwys detholiad o gynhyrchion o Fangladesh. O fewn dwy flynedd cyflwynwyd te, coffi ac wedi hynny ystod eang o fwydydd eraill. Yn 1983 symudodd y sefydliad i warws mawr ar ystad fasnachu yn Gateshead gerllaw, gan fynd â chyfanswm y staff i dros 140 o weithwyr, ac roedd bellach yn gweithio gyda dros gant o grwpiau cynhyrchwyr mewn 30 o wledydd ledled y byd. Disgrifir Traidcraft fel yr arloeswr gwreiddiol mewn Masnach Deg yn y Deyrnas Unedig – gan frwydro yn erbyn anghyfiawnder



a cheisio pris teg i gynhyrchwyr ers dros bedwar degawd. Mae wedi bod yn hyrwyddo pwysigrwydd ffermio organig, cynaliadwyedd a thryloywder i fywydau tyfwyr a chrefftwyr ledled y byd.

Yn ôl datganiad a wnaed ar 20 Ionawr gan Fwrdd Cyfarwyddwyr Traidcraft plc: 'Gyda thristwch aruthrol y cyhoeddwn fod Traidcraft plc wedi ei roi yn nwylo'r gweinyddwyr. Mae'r busnes wedi bod mewn sefyllfa ariannol fregus ers rhai blynyddoedd, ac fe gyflwynodd pandemig Covid-19 set newydd sylweddol o heriau. Yn union fel yr oeddem yn dod allan o'r pandemig, fel llawer o fân-werthwyr eraill, roeddem yn wynebu effeithiau'r rhyfel yn Wcráin, prisiau ynni cynyddol, a chostau trafniadaeth uwch. Yn anffodus, er gwaethaf ymdrechion arwrol ein tîm yn Gateshead, yn ystod cyfnod masnachu tyngedfennol y Nadolig, gyda gwerthiant gryn dipyn yn llai na'r hyn oedd ei angen i gynnal y cwmni, a gyda heriau o ran y tywydd a'r ansicrwydd a grëwyd gan streiciau'r Post Brenhinol, roedd y golled yn fwy na y gellid ei chynnal.



'Ar ôl llawer o drafod ac yn dilyn cyngor gan gynghorwyr allanol, rydym wedi dod i'r casgliad mai'r unig ffordd anrhydeddus o weithredu yw penodi gweinyddwyr. Drwy wneud hyn mewn modd amserol, ein gobaith yw y gallwn leihau'r effaith ar ein cyflenwyr a'n credydwyr. Mae'n doralonius dod â stori Traidcraft plc i ben yn y modd hwn, ond gallwn o leiaf gael rhywfaint o gysur o'r wybodaeth ein bod wedi bod yn rym mawr er daioni yn y sector manwerthu moesegol ers dros ddeugain mlynedd. Rydym wedi hyrwyddo achos cyfiawnder masnach i'r



TRAIDCRAFT
Fighting poverty through trade

pwynt lle mae gennym bellach safonau a gweithdrefnau gwell ar waith i amddiffyn hawliau ac urddas tyfwyr a chynhyrchwyr ledled y byd.

'Hoffem ddiolch o galon i bawb sydd wedi teithio gyda ni fel gweithwyr, ac yn arbennig y Fairtraders yn yr eglwysi, llawer ohonynt wedi bod gyda ni ers y cychwyn cyntaf. Ein gobaith a'n gweddi yw y bydd eraill yn dod i'r amlwg i godi'r fflag yr ydym wedi'i chario ers pedwar degawd.'

Un o'r Fairtraders hynny ers blynyddoedd maith yw'r Parch. Tom Defis, Caerfyrddin. Ar un cyfnod roedd yn un o brif gwsmeriaid y cwmni, ac mae wedi cario cynnyrch o gwmpas capeli ac eglwysi sir Gaerfyrddin ers degawdau. Bydd amryw o ddarlennwyr *Cenn@d* hefyd wedi dod ar ei draws yn y gwyliau cenedlaethol, ar faes yr Eisteddfod a'r Sioe, efo'i stonidn cynnyrch Traidcraft. Wrth sgwrsio â Tom am y newyddion, soniodd am bwysigrwydd y cwmni fel arloeswr ym myd Masnach Deg, ac fel cwmni a wnaeth gyfraniad enfawr, a hynny oherwydd amrywiaeth y cynnyrch – o nwyddau bwyd fel te, coffi, siwgr, mêl, ffrwythau sych, siocled, grawnfwyd a sbeisys i gynnyrch crefft a nwyddau i'r cartref. Dywedodd fod colli Traidcraft yn ergyd anferth i'r achos, a bod ein dyled yn fawr iddynt am eu gwaith diflino dros ddeugain mlynedd.

Ond mae Tom hefyd am ein hatgoffa bod yna gynhyrchwyr eraill yn y byd Masnach Deg erbyn hyn, a bod brandiau fel Divine gyda'i siocledi a Cafe Direct efo'u te a'u coffi yn parhau i fasnachu. A ninnau ar drothwy pythefnos Masnach Deg ym mis Chwefror, mae'n debyg bod y gofyn a'r galw i gefnogi yn fwy nag erioed. Fel Cristnogion yng Nghymru, beth am i ni ymrwymo unwaith eto i gefnogi a phrynu cymaint o nwyddau Masnach Deg ag y medrwn, er mwyn sicrhau tegwch i gynhyrchwyr ledled y byd? Diolchwn am gyfraniad enfawr Traidcraft i faes Masnach Deg, a gweddiwn y daw eraill eto i hybu a hyrwyddo'r diwydiant pwysig hwn.

Open Doors yn lansio
Rhestr Wyllo'r Byd am y 30fed tro
Tudalen 2

Gwobr arian eco-eglwys i
eglwys Aeon, Sandy Hill, sir Benfro
Tudalen 4

Plesio pawb a phlesio neb
Tudalen 5

Open Doors yn lansio Rhestr Wyllo'r Byd am y 30^{fed} tro

Aeth 30 mlynedd heibio ers i'r mudiad Open Doors ddechrau cyhoeddi Rhestr Wyllo Fyd-eang yn cofnodi sefyllfa Cristnogion dan erledigaeth.

Pan gyhoeddwyd Rhestr Wyllo 2023 yr wythnos diwethaf mewn digwyddiad yn Senedd San Steffan, yr oedd un o bob saith o Gristnogion ledled y byd yn cael eu herlid oherwydd eu ffydd. Cânt eu targedu yn aml mewn ymosodiadau, fel treisio, herwgipio, a hyd yn oed eu lladd. Yn ôl yr ystadegau a lwyddodd y mudiad i'w casglu y llynedd, fe fu farw 5,621 o Gristnogion oherwydd eu ffydd.

O'r 360 miliwn o Gristnogion sy'n wynebu erledigaeth yn ddyddiol, mae 312 miliwn yn byw yn y 50 gwlad sy'n ffurfio'r rhestr hon, yn ôl yr adroddiad. Gogledd Corea, Somalia ac Yemen yw'r gwledydd mwyaf peryglus i fyw ynndynt fel Cristion eleni.

Afghanistan oedd ar ben y rhestr y llynedd. Ar ôl i'r Taliban gymryd yr awenau yn 2021, dienyddiwyd llawer o Gristnogion wrth i'r oruchwyliaeth newydd fynd o ddrws i ddrws er mwyn dileu Cristnogaeth. Fodd bynnag, mae Afghanistan bellach wedi disgyn i rif naw ar y rhestr. Ond dywedodd Henrietta Blyth, Prif Swyddog Gweithredol Open Doors y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, yn yr adroddiad nad yw'r gostyngiad o ran safle o reidrwydd yn golygu gwelliant yn yr amodau i Gristnogion yn y wlad.

“Mae'n ymddangos mai'r rheswm am y gostyngiad hwn yw lleihad sylweddol yn y sgôr trais. Ac mae hynny naill ai oherwydd bod y Cristnogion wedi ffoi o'r wlad, neu eu bod nhw eisoes, yn drist iawn, wedi cael eu lladd, neu eu bod yn gorfod cuddio. Dim ond marwolaethau a digwyddiadau o drais rydyn ni'n gallu eu cadarnhau y byddwn ni'n eu hadrodd. ... Ddylai pobl ddim cael eu twyllo i feddwl bod pethau wedi gwella i'n brodyr a'n chwiorydd yn Afghanistan. Yn bendant, dydyn nhw ddim.”

Mae'r adroddiad hefyd yn rhybuddio am don o drais crefyddol yn Affrica Is-Sahara sy'n ansefydlogi'r rhanbarth, gyda miloedd o Gristnogion yn cael eu targedu gan grwpiau Islamaidd. Mae grwpiau fel Boko Haram yn anafu, yn treisio ac yn herwgipio credinwyr er mwyn dileu presenoldeb Cristnogaeth.


“Pe bai trais yn unig faen prawf ar gyfer y rhestr, Nigeria fyddai'r uchaf ar y rhestr,” ychwanegodd Blyth. “Mae mwy o Gristnogion yn marw yn Nigeria nag mewn unrhyw wlad arall. Mewn gwirionedd, mae 90 y cant o'r marwolaethau a gofnodir gennym ymysg ein brodyr a'n chwiorydd Cristnogol yn digwydd yn Nigeria. Y llynedd, lladdwyd dros bum mil o bobl yno. Ac mae'n ymddangos bod hyn bellach mewn perygl o ansefydlogi'r rhanbarth cyfan, sy'n achos pryder mawr.”

Rhybuddiodd yr elusen hefyd am sefyllfa Cristnogion yn China, gyda'r llywodraeth gomiwnyddol yn gweithredu rheolau newydd ar ddefnyddio'r rhyngwryd i wasgu mwy ar eglwysi tanddaearol a chyfyngu ar ddeunydd crefyddol.

Gan gyrraedd y sgôr uchaf erioed yn hanes y rhestr, mae Gogledd Corea wedi dychwelyd i rif un ar y rhestr eleni. Yn ôl y mudiad Open Doors, mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y Cristnogion sydd wedi cael eu harestio yno, â mwy o eglwysi tanddaearol yn cael eu darganfod a'u cau.

Rheswm arall pam y mae Gogledd Corea yn ôl ar frig y rhestr yw'r ddeddf newydd sy'n cael ei gorfodi ar y rhai sy'n meddwl mewn ffordd sy'n groes i ddymuniadau'r llywodraeth (*'anti-reactionary thought law'*). Yn ôl y ddeddf hon, mae'n drosedd bod ag unrhyw ddeunydd cyhoeddusig o darddiad tramor, gan gynnwys y Beibl, yn eich meddiant. Caiff y ddeddf hon hefyd ei defnyddio i chwilio am eglwysi a chredinwyr tanddaearol.

“Mae Gogledd Corea wedi targedu Cristnogion a Christnogaeth erioed. Dyma'r grŵp cyntaf i gael ei ddileu neu ei dargedu neu ei



Mapiau'n dangos sefyllfa erledigaeth ar Gristnogion yn 1993 ac yn 2023

ddinistrio. Mae hyn wedi bod yn digwydd ers blynyddoedd lawer, ers 1948 gyda sefydlu'r unbennaeth gomiwnyddol,” meddai Timothy Cho, ffoadur o Ogledd Corea sydd bellach yn gweithio i Open Doors fel llefarydd y rhanbarth. “Mae'r gyfraith newydd hon yn dod â thon newydd o erledigaeth yn ei sgil. Maen nhw'n ceisio dod o hyd i unrhyw un sydd wedi dod dan ddylanwad deunyddiau crefyddol.”

Wrth i Cho gyflwyno'i dystiolaeth a'i hanes yn y carchar i fudiad newyddion Cristnogol Premier, dywedodd: “Dim ond un person wedi cael cyfarfyddiad â Duw sydd ei angen er mwyn lledaenu'r Efengyl. Dychmygwch wlad heb ffonau symudol na rhyngwryd, ond lle mae gennych chi gymuned ddynol. Dyna sut y gall y stori gael ei throsglwyddo o'r naill i'r llall. ... Maen nhw'n gwybod y gallan nhw gael eu lladd, ond maen nhw'n gwybod hefyd na fydd eu ffydd yn cael ei dinistrio.”

Er ei bod yn anodd gwybod faint o Gristnogion sydd yng Ngogledd Corea, mae Open Doors yn amcangyfrif bod yna 400,000 yno, a bod rhwng 50,000 a 70,000 ohonynt mewn gwersylloedd llafur.

Er mwyn cael golwg ar y deunyddiau i'w lawrlwytho neu eu harchebu, gellir mynd at wefan y mudiad: www.opendoorsuk.org/persecution/world-watch-list/

Cafwyd addewid y bydd y mudiad yn paratol llyfryn y Rhestr Wyllo Fyd-eang eto eleni yn Gymraeg ac y bydd ar gael ym mis Chwefror. Bydd yn ein hysbysu am sefyllfa'r aelodau hynny o'n teulu Cristnogol sy'n cael eu herlid ledled y byd ac yn rhoi arweiniad inni wrth weddio drostynt.

Diwrnod Cofio'r Holocost – 27 Ionawr 2023

Bob blwyddyn neilltuir diwrnod i gofio am erchyllterau hil-laddiad. Nid cofio am ddiodefaint Iddewon a grwpiau eraill yn yr Holocost yn Ewrop yn ystod yr Ail Ryfel Byd yn unig yw bwriad y cofio. Cofiw'n hefyd am enghreifftiau o hil-laddiad mewn gwledydd eraill wedi hynny hefyd.

A beth sy'n ein synnu, wedi'r digwyddiadau erchyll yr adroddir amdanynt, yw mai 'pobl gyffredin' weithredodd y trais yn erbyn eu cyfoedion a'u cymdogion.

Yn y cyflwyniad i'r adnoddau Cymraeg a baratowyd dywedir bod:

hil-laddiad yn cael ei hwyluso gan bobl gyffredin. Mae pobl gyffredin

yn anwybyddu beth sy'n digwydd, yn credu propaganda, yn ymuno â chyfundrefnau sy'n llofruddio. Ac nid yw'r rhai sy'n cael eu herlid, eu gorthrymu a'u llofruddio mewn hil-laddiad yn cael eu herlid oherwydd troseddau y maent wedi'u cyflawni – maent yn cael eu herlid am y rheswm syml eu bod yn bobl gyffredin sy'n perthyn i grŵp penodol.

Dyma yn ddi-os air yn ei amser. Oherwydd, os hwylusir trais drwy unigolion, cawn ninnau fel unigolion a chymdeithas ein herio i beidio â chau ein clustiau i'r ieithwedd a ddefnyddir gan arweinwyr 'poblogaidd' na chael ein twyllo gan bropaganda torfol.



YMDIRIEDOLAETH
DIWRNOD
COFIO'R HOLOCOST

*Dysgu o hil-laddiad -
ar gyfer dyfodol gwell*

Ewch i'r wefan am ragor o wybodaeth:
<https://www.hmd.org.uk/wp-content/uploads/2022/12/HMD-2023-Theme-Vision.pdf>

Cyfarfod Sefydlu'r Parchedig Ddr Alun Morton Thomas

Daeth nifer fawr ynghyd i gyfarfod sefydlu'r Parchedig Ddr Alun Morton Thomas yn weinidog ar Ofalaeth Bro Llanfair-pwll a'r Cylch a gynhaliwyd yn Eglwys Unedig Rhos y Gad ddydd Sadwrn, 14 Ionawr.

Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parchedig Megan Williams, Llywydd Henaduriaeth Môn. Offrymodd y Llywydd weddi, a chroesawodd i'r oedfa y Parchedig Nan Wyn Powell-Davies, Ysgrifenydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Estynnodd groeso hefyd i aelodau eglwysi Rhos y Gad, Llanfair-pwll; Disgwylfa, Gaerwen; Moreia, Llangefni; a Thy Mawr, Capel Coch, ynghyd â lluo o gyfeillion eraill, pell ac agos. Nododd nad oedd gwaith Llywydd yr Henaduriaeth bob amser yn hawdd, yn enwedig pan fo gofyn am arwain gwasanaeth datgorffori eglwys. Fodd bynnag, yr oedd yr achlysur hwn yn un hapus, ac yn uchafbwynt ei llywyddiaeth, gan ein bod yn cyfarfod i sefydlu gweinidog ifanc, brwdfrydig a boneddigaidd, a mynegodd y gobaith y byddai holl aelodau'r eglwysi o dan ei ofal yn estyn pob cefnogaeth iddo.

Offrymwyd gweddi a darllenwyd o Efengyl Mathew 28 a 2 Timotheus 1 gan y Parchedig R. O. Jones. Yr oedd y gwasanaeth sefydlu yng ngofal y Parchedig Megan Williams a Miss Jane Richards, Ysgrifennydd yr Henaduriaeth. Cadarnhaodd Miss Richards fod yr atwad i'r Parchedig Alun Morton Thomas yn Weinidog yr Ofalaeth yn hollol unol â rheolau'r Corff. Wedi i'r Dr Thomas ymateb yn gadarnhaol i holl gwestiynau'r Llywydd, offrymwyd gweddi drosto gan gyn-weinidog yr ofalaeth, y Parchedig Jim Clarke.

Priodol oedd gwahodd y Parchedig Brian Wright i roi siars i eglwysi'r ofalaeth, gan ei



Yn y llun y mae'r Parchedig John M. Job, Miss Jane Richards, y Parchedig Brian Wright, y Parchedig Megan Williams, y Parchedig Ddr Alun Morton Thomas, y Parchedig R. O. Jones, Mr Huw Goronwy Owen, y Parchedig Nan Wyn Powell-Davies, a'r Parchedig Jim Clarke

fod ef wedi adnabod Alun a'i briod, Gwawr, hyd yn oed cyn i'r ddau ddod i nabod ei gilydd! Cymeroddyndestuneiriau Paulwrth Timotheus: 'Felly, na foed cywilydd arnat roi tystiolaeth i'r Arglwydd' (2 Timotheus 1:8). Pwysleisiodd nad peth hawdd bob amser oedd tystio i'r Arglwydd, gan fod y byd, yn gyffredinol, yn erbyn y dystiolaeth Gristnogol. Cyfeiriodd at groeshoeliad Iesu pan fu iddo wynebu gwawd a dirmyg gan y Sanhedrin, yr Iddewon a'r milwyr. Tasg yr eglwys heddiw – yn weinidogion, yn flaenoriaid, diaconiaid, ac aelodau – oedd codi llais o blaid Iesu a dwyn tystiolaeth i waith yr efengyl.

Ar ôl y siars, darllenodd y Llywydd neges gan Mr Rheinallt Thomas, cyn-lywydd yr ofalaeth, yn dymuno pob llwyddiant i Alun ac i'r ofalaeth ar gyfer y dyfodol. Offrymwyd gweddi ar ran yr ofalaeth gan y Parchedig John M. Job. Gweddi o ddiolch oedd ganddo: diolch am Alun a'i waith diwyd, gofalus a chydwybodol yn yr ofalaeth, a diolch nad oedd Iesu wedi gadael ei hun yn ddi-dystiolaeth mewn unrhyw genhedlaeth.

Cafwyd ymateb gan Alun yn nodi bod pedair blynedd eisoes wedi mynd heibio ers iddo ddod i'r ofalaeth, a mynegodd werthfawrogiad o'r gefnogaeth a'r cymorth yr oedd wedi eu derbyn gan swyddogion ac aelodau eglwysi'r ofalaeth. Pwysleisiodd y pwysigrwydd o gadw'n ffyddlon i addewidion mawr Duw, a beth bynnag fo gobeithion a phryderon y gynulleidfa gallent ymdawelu yn y sicrwydd bod cariad Crist yn sylfaen i'w bywydau.

Bu i'r Parchedig Ronald Williams a Huw Goronwy Owen hefyd gymryd rhan yn y gwasanaeth. Yr oedd aelodau o bob un o eglwysi'r ofalaeth wedi bod wrthi'n paratoi lluniaeth, a daeth nifer ynghyd i'r festri wedi'r oedfa i fwynhau paned, cacen a sgwrs.

Eryl W. Davies

DS Gellir gwyllo recordiad o'r gwasanaeth ar sianel YouTube Gofalaeth Bro Llanfairpwll a'r Cylch: https://www.youtube.com/watch?v=htilVFDxrJc&ab_channel=GofalaethBroLlanfairpwll%27rCylch

Gwobr arian eco-eglwys i eglwys Aenon, Sandy Hill, sir Benfro

Llawenydd yw clywed bod eglwys Aenon, Sandy Hill, wedi ei chydabod fel yr eglwys Fedyddiedig gyntaf yng Nghymru i ennill gwobr arian eco-eglwys!

Cymuned fechan o 13 o aelodau yw eglwys Aenon, ac mae wedi bod yn cyfarfod mewn cwm cul ger Aberdaugleddau er 1812. Ond mae'r gynulleidfa wledig hon bellach yn arwain y ffordd ymhlith eglwysi'r Bedyddwyr yng Nghymru am ei hymrwymiad i stiwardio'r greadigaeth, gan ennill gwobr arian yn ddiweddar gan [A Rocha UK](#), yr elusen gadwraeth Gristnogol.


'Roedden ni wedi bod yn canolbwyntio ar ddsygeidiaeth y Beibl am y greadigaeth beth bynnag,' eglura Jon Brewer, gweinidog yr eglwys, 'gan ddefnyddio'r Sul Hinsawdd blynyddol fel cyfle i edrych ar adnodau fel Salm 24:1 sy'n dweud mai "eiddo'r Arglwydd yw'r ddaear a phopeth ynddi". Ac mae gennym y fendith nid yn unig o fod â lleoliad prydferth ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ond hefyd o gael aelodau yn y capel, fel ein diacon Mike, sydd wedi ymroi cymaint i'n mynwent a'n gardd ers blynyddoedd. 'Dyw e erioed wedi defnyddio chwynladdwyr na phlaladdwyr yno, felly mae'r lle mor gyfoethog mewn bywyd gwyllt – blodau saffrwm a chlychau'r gog yn y gwanwyn, ac amrywiaeth eang o lysiau gwyllt. Mewn gwirionedd, mae wedi dod yn fath o warchodfa bywyd gwyllt answyddogol.'

Ond yna, ychydig flynyddoedd yn ôl daeth yn amlwg bod angen atgyweirio adeiladwaith adeilad yr eglwys, ac fe drodd hynny'n gyfle annisgwyl i bwysu a mesur: 'Fe ofynnwn ni i ni'n hunain beth ddylen ni ei wneud er mwyn bod yn stiwardiaid da ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a throsglwyddo iddynt fan arbennig yn yr ardal hon a fyddai'n dystiolaeth gynnes a charedig i'r amgylchedd o gymuned y Bedyddwyr.'

Fe benderfynon nhw fuddsoddi mewn pypiau gwres o'r aer (*air-source heat pumps*) i wresogi'r hen adeilad. Er bod angen caniatâd cynllunio, roedd y broses yn llwyddiannus yn y pen draw ac mae'r system hyd yn oed yn darparu llif aer glân yn yr haf. Yna, roedd angen datrys hen broblem diffyg toiledau, a'r ateb amlwg, gan nad oedd pibellau dŵr wedi'u gosod, oedd trefnu i gael eco-doiled yn yr hen stabl.



Eglwys Aenon yn swatio mewn cwm cul yn sir Benfro



Mwynhau'r gwmniaeth mewn llecyn tawel a gwyrdd

Ar ôl gwneud y pethau hyn ar eu liwt eu hunain, roedd rhai o aelodau'r eglwys wrth eu bodd yn cwrdd â Delyth, cynrychiolydd Cymreig A Rocha, yng nghynhadledd Momentwm haf 2022 yng Nghaerfyrddin. Syrthiodd pethau i'w lle a chefnogodd yr eglwys y syniad o gyflawni'r gofynion eraill oedd eu hangen i gyrraedd safonau A Rocha.

Meddai Delyth: 'Rwyf wrth fy modd fod eglwys arall wedi ennill y wobwr arian yma yng Nghymru, a'r gyntaf o blith y Bedyddwyr at hynny! Mae'n dangos nid yn unig fod mwy o eglwysi yn dechrau ar eu taith i weithredu ar faterion amgylcheddol, ond eu bod eisiau mynd yn ddyfnach ac ymhellach gyda gweithredu'n ymarferol i ofalu am ddaear Duw. Mae Aenon, Sandy Hill, wedi gweithio'n galed i gael y wobwr hon. Rwy'n mawr obeithio y bydd darllen a chlywed am yr hyn y maen nhw wedi'i gyflawni a sut y gwnaethon nhw hynny yn ysbrydoli eglwysi Bedyddiedig eraill i archwilio'r mater hanfodol bwysig hwn o fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.'

Mae Jon yn sicr fod yr holl broses wedi bod yn fendith i'r eglwys yn ei chenhadaeth, yn hytrach na'i bod wedi tynnu sylw'r aelodau oddi wrthi mewn unrhyw ffordd: 'Mewn gwirionedd, mae wedi dod yn gyfle cenhadol. Yn ein cymuned wledig, mae hwn yn fan gwyrdd pwysig i bobl ei fwynhau, ac mae'r ffordd rydyn ni wedi stiwardio'r lle yn golygu bod pobl yn dod i eistedd yn ein gardd, mwynhau'r blodau ac yn y blaen. Dwi'n meddwl bod hwn yn un o'r pethau yna sy'n siarad gyda phobl yn y gymuned ymhell tu allan i'r eglwys, ac yn caniatáu i ni godi pontydd.'

Am ragor o wybodaeth am y rhaglen Eco-eglwys, ewch i: <https://ecochurch.arocha.org.uk/>

Plesio pawb a phlesio neb

Ddydd Mercher, 18 Ionawr, rhyddhaodd Eglwys Loegr ‘gynlluniau hanesyddol’ yn amlinellu ffordd ymlaen ar ôl degawdau o drafod materion rhywioldeb a phriodas. Caiff y cynnig, a gefnogwyd gan yr esgobion, ei roi gerbron corff llywodraethol yr Eglwys fis nesaf.

Mae'r cyhoeddiad yn dweud na fydd yr Eglwys yn Lloegr yn newid ei hathrawiaeth bresennol, sef na all priodas ddim ond bod yn uniad rhwng dyn a menyw am oes. Bydd dewis gwirfoddol gan glerigwyr i fendithio priodas cwpl o'r un rhyw mewn priodas sifil, a'r opsiwn i beidio â gwneud hynny gan rai sy'n gwrthwynebu o ran eu diwinyddiaeth.


Dywed Eglwys Loegr y bydd yn ‘cynnig y ddarpariaeth fugeiliol lawnaf bosibl heb newid athrawiaeth swyddogol y corff’. Ni chaiff cyplau o'r un rhyw briodi mewn eglwys sy'n ran o Eglwys Loegr, ond gallant gael gwasanaeth yn yr eglwys gyda gweddi o gyflwyniad, o ddiolchgarwch neu am fendith Duw ar y cwpl, yn dilyn priodas sifil.

Roedd Justin Welby yn llawenhau yn yr amrywiaeth barn oddi mewn i Eglwys Loegr ar faterion rhywioldeb, perthynas a phriodas. Eto, roedd yn cydnabod na fyddai'r cynnig presennol yn plesio pawb.

Dyweddodd Stephen Cottrell, archesgob Efrog, fod y cynnig ‘yn gam real ymlaen, rhywbeth hynod bwysig’. Roedd yn teimlo bod Eglwys Loegr wedi cyrraedd carreg filltir bwysig ar y daith, os nad y pen draw. Nododd y byddai cwpl o'r un rhyw am y tro cyntaf yn cael dod i eglwys er mwyn i'w perthynas gael ei chydabod, ei chysegro ac iddynt dderbyn bendith Duw. Roedd yn cydnabod yr un pryd fod hyn yn syrthio'n fyr o briodas eglwysig i gwpl o'r un rhyw.

Mae'n amlwg bod rhwystredigaeth ynglŷn â'r cynnig ar ddwy ochr y ddadl.

Roedd Steven Croft, esgob Rhydychen, yn siomedig nad oedd modd cael consensws i symud y rhwystrau i briodas gyfartal i bawb yn Eglwys Loegr.



Steven Croft

Roedd Jayne Ozanne, lladmerydd cydraddoldeb LGBTQ+ yn yr Eglwys, yn anffodlon â'r cynnig, gan fod aelodau'r grŵp mae'n ei gynrychioli yn ddinasyddion ail ddsbarth ac yn teimlo bod yr esgobion yn cynnig briwsion iddynt.



Jaynes Ozanne

Ar yr ochr arall, dywedodd Andrea Williams, aelod efengylaidd geidwadol o Eglwys Loegr, fod yr Eglwys wedi ildio a chyfaddawdu'n llwyr ar y mater. Credai fod hyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer priodas cyplau o'r un rhyw ym mhob ffordd ac eithrio mewn enw. Er nad oedd Eglwys Loegr yn newid yr athrawiaeth swyddogol, roedd yn bwriadu diystyru dysgeidiaeth y Beibl ar briodas yn llwyr.



Andrea Williams

Rhaid dweud bod darllen hyn yn peri tristwch, a hynny am sawl rheswm:

- Mae clywed llais cymysg gan gorff fel Eglwys Loegr neu enwad anghydfurfiol yn ddryslyd i bobl.
- Pe bai'r cyrff hyn mewn harmoni â llais y Beibl, byddai'r llais yn gliriach o lawer.
- Mae'r Beibl yn nodi cyfunrywiaeth fel pechod, a phriodas fel uniad oes rhwng dyn a menyw. Yn ôl yr Ysgrhythur, dyma lais Duw ar y mater.
- Mae'r Beibl hefyd yn dweud bod disytyru gair Duw yn ein harwain at dywyllwch ac anobaith ysbrydol yn hytrach na goleuni a gobaith (Salm 107:10–12). Mae'n ofid calon meddwl bod eglwysy'n fodlon gwneud hyn. Onid ein galwad yw i ddod â phobl i'r goleuni?
- Neges fawr y Beibl yw bod Iesu Grist wedi dod yn feddyg i gleifion, nid y rhai iach; i achub pechaduriaid, nid rhai sydd yn eu hystyried eu hunain yn gyfiawn. Dydy Duw ddim yn wincio ar bechod, ond mae wedi talu'n ddrudd iawn – trwy offrymu ei annwyl Fab ar y groes – i baratoi achubiaeth oddi wrth ein pechodau.
- Er bod llawer yn anghytuno â Gair Duw heddiw, oherwydd bod doethineb ein hoes ni yn dweud yn wahanol, onid ein dyletswydd ni fel eglwysy yw ildio i'r hyn mae'r byd yn ei ystyried yn ffolineb yr Ysgrhythur, sef gwirionedd y Beibl?
- Onid trwy blesio'r Arglwydd, ac aros ynddo wrth i'w eiriau aros ynom ni, y mae dwyn ffrwyth fydd yn bendithio eraill mewn gwirionedd?

John Treharne

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

15 Offeiriad am byth, yn ôl urdd Melchisedec

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 8)

Darllen: Genesis 14:1-20; Salm 110 a Hebreaid 7

Os oedd hanes y rhyfeloedd ym mhennod 14 yn anghyfarwydd inni, mae'n debyg fod ambell un ohonoch yn fwy cyfarwydd â'r adnodau sy'n cyfeirio at Melchisedec. Nid bod yna lawer o sôn amdano yn y Beibl, ond mae'r cyfeiriadau ato'n arwyddocaol iawn. Cawn y cyfeiriadau yn y tri darlleniad yr wyfyn eu nodi uchod. Rwyf am ddechrau drwy ystyried Salm 110. Fel y gwelwch o'r testun, o dan y pennawd ac yng nghorff y salm cawn y geiriau, 'I Ddafydd. Salm.' Fel y gwyddoch, fe briodolir llawer o'r salmau i nifer o awduron a cheir cryn drafodaeth am awduriaeth amryw ohonynt. Yn achos salmau Dafydd, mae nifer wedi eu hysgrifennu gan aelodau o'i lys.

Ond mae dau beth yn arwyddocaol yma: mae'r priodoli yng nghorff y salm, nid yn y teitl, ac yn fwy na hyn, mae Iesu ei hun yn siarad am awduriaeth y salm yma yn ystod ei weinidogaeth. Wrth ddsygu amdano'i hun (Mathew 22:42-6 a Marc 12:35-7) wrth ddyfynnu Salm 110, fe ddywed: 'Dywedodd Dafydd ei hun, trwy'r Ysbryd Glân: "Dywedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd i, "Eistedd ar fy neheulaw nes imi osod dy elynion dan dy draed." "Y mae Dafydd ei hun yn ei alw'n Arglwydd; sut felly y mae'n fab iddo?" Yr oedd y dyrfa fawr yn gwrando arno'n llawen.'

Wrth gwrs, mae'n wir fod Iesu yn Fab Dafydd yn yr ystyr ei fod yn ei linach, ei fod yn dod yn frenin i orsedd Dafydd ar bobl Dduw, ond mae Iesu am inni ystyried y geiriau yn fwy gofalus. Petai'r salm yn eiddo un o lys Dafydd, mi fyddai'r adnod agoriadol yn medru golygu: Dywedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd (y Brenin Dafydd) am eistedd ar fy neheulaw ... Ond Dafydd ei hun sy'n ysgrifennu ac yn cyfeirio at ei Arglwydd.

I Iesu, salm amdano ef yw hon, ac os mai Dafydd oedd yr awdur, mae'n amlwg ei fod yntau'n edrych ymlaen at y Meseia hwn. Yn wir, mae hyn yn cael ei gadarnhau yn y disgrifiad ohono fel 'offeiriad am byth yn ôl urdd Melchisedec'. Roedd Dafydd yn gwybod am hanes ei ragflaenydd Saul, fod hwnnw wedi colli ei frenhiniaeth am iddo geisio bod yn frenin ac yn offeiriad. Roedd y teulu brenhinol yn dod o lwyth Jwda, ond dim ond y Lefiaid oedd yn cael bod yn offeiriad. Ond mae'n gweld hefyd, yn Genesis 14, cyn cyfnod y Gyfraith, fod yna un sy'n frenin ac yn offeiriad.

Mae'r awdur at yr Hebreaid, wrth siarad am offeiriadaeth Iesu, yn mynd â ni i'r un lle wrth feddwl am ragoriaeth person Iesu Grist. Wrth ddyfynnu Salm 110:4 yn Hebreaid 7:17, mae'r awdur am bwysleisio annigonolrwydd y Gyfraith a'r offeiriad Lefiaid i ateb yr angen am berffeithrwydd (Hebreaid 7:19). Mae'r Gyfraith 'yn penodi yn archoffeiriad ddynion sy'n weiniaid' ond mae Iesu yn offeiriad 'sydd wedi ei berffeithio am byth' (Hebreaid 7:28). Fel Dafydd, mae'r awdur at yr Hebreaid yn gweld Melchisedec nid fel Iesu'n ymddangos yn yr Hen Destament, ond fel Meseia sy'n cyflawni'r cysgod ohono a geir yn hanes Melchisedec.

Cofiwch, mae nifer o Gristnogion yn gweld yr hanes yn Genesis fel enghraifft o ymddangosiad Iesu, ond rwy'n amau mai'r ymadrodd allweddol sy'n delio â hyn yn Salm 110 (sy'n cael ei ddyfynnu yn Hebreaid 7), yw'r geiriau 'yn ôl urdd'. Nid dweud y mae Dafydd mai Melchisedec yw'r Meseia, ond y bydd y Meseia yn frenin ac yn offeiriad sy'n cyflawni'n llawn yr hyn a ddwedwyd am y dyn hwn.

Rwyf am gloi'r cip hwn ar yr adnodau yn Genesis drwy nodi sut mae Iesu'n gwneud hynny, gan gymryd geiriau Iesu yn Mathew 22 a Marc 12, a geiriau Hebreaid 7 fel sail i'r sylwadau.

Fel Melchisedec, mae Iesu'n frenin cyfiawnder a heddwch. Ystyr 'Melch'

yw brenin, a 'sedec' yw cyfiawnder. Mae 'Salem' yn golygu heddwch (yr un cytseiniaid â 'Shalom'), a mwy na heddwch – mae'n golygu llesiant (*well-being*) yn ein perthynas â Duw ac â phobl, yn cyfeirio at fywyd llewyrchus ar ei orau. Yn ôl Paul, nodweddir teyrnas Iesu gan '[g]yfiawnder a heddwch a llawenydd yn yr Ysbryd Glân' (Rhufeiniaid 14:17). Fel 'offeiriad y Duw goruchaf', dywed awdur yr Hebreaid mai 'Dyma'r math o archoffeiriad sy'n addas i ni, un sanctaidd, di-fai, dihalog, wedi ei ddioli oddi wrth bechaduriaid, ac wedi ei ddyrchafu yn uwch na'r nefoedd' (Hebreaid 7:26). Fel y bu i Abraham dalu degwm i Melchisedec a derbyn bendith, felly yr ydym ninnau'n rhoi ein gorau i Iesu, ac o'i law yn cael ein 'bendithio â phob bendith ysbrydol yn y nefolion leoedd' (Effesiaid 1:3).

Yn olaf, fel yr awgrymais uchod, mae'r cyfeiriad at Melchisedec, yn arbennig yn yr Hebreaid, yn ein hatgoffa mor annigonol yw'r Gyfraith a'i hoffrymau i ddelio'n dragwyddol â'n hangen ni. Rhaid wrth offeiriad tragwyddol, un heb ddechrau na diwedd, i wneud aberth digonol. Mae Thomas Charles o'r Bala yn cyfeirio at Melchisedec fel cysgod o Iesu ac yn dweud: 'Gan fod mawredd ac ardderchogrwydd yn y cysgodau o Grist yn yr eglwys, mae'n rhaid fod mawredd anfeidrol yn y gwrthlun mawr o'r cwbl, sef Crist ei hun.'

1. Yn ôl un awdur, yr esboniad gorau ar y Beibl yw'r Beibl. Pa mor bwysig i chi yw darllen y Beibl i gyd er mwyn deall y Beibl?
2. Wrth gyfeirio at Iesu fel brenin cyfiawnder a heddwch, a'i deyrnas fel teyrnas cyfiawnder, heddwch a llawenydd, sut fyddwch chi'n byw hyn yn bersonol, ac yn rhannu hyn ag eraill?
3. Sut fyddwn ni'n 'talw' i Iesu, a beth yw'r bendithion 'ysbrydol yn y nefolion leoedd' y byddwn ni yn eu derbyn yn rhad ganddo?

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
Sul, 29 Ionawr, am 7.30yh

Yr wythnos hon, fe fyddwn yn Llundain. Daw'r canu mawl o'r eglwys Gymraeg yng nghanol y ddinas, Capel y Bedyddwyr, East Castle Street, o dan arweiniad Trystan Lewis

BBC | radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 29 Ionawr, am 7:30yb a 4:30yp

R. Alun Evans yn cyflwyno'r chweched raglen mewn cyfesurys sy'n trafod gwahanol themâu. Amser sydd dan sylw heddiw

Sul, 29 Ionawr, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Gwydion a Catrin Lewis, Canolfan Bryn-y-groes, y Bala

Ffydd a Diwylliant

Cam ceiliog. Hwnna ydy o.

Mae'r dydd yn ymestyn a'r goleuni yn trechu'r tywyllwch unwaith eto.

Rydyn ni newydd ddathlu bod Goleuni wedi dod i'r byd ac wedi estyn y ddelwedd fel taffi triog, ei throï a'i throï a'i thrin hi nes ei bod hi ar dorri.

Tybed a oes yna ddelwedd fwy treuliedig na 'du vs gwyn', 'Y Goleuni vs Y Tywyllwch' yn bod? O Genesis i Star Wars a thu hwnt.

Mae hi'n gwbl sylfaenol i'n diwylliant ni, i'n ffydd ni, i'n gwareiddiad ni yn y 'gorllewin'.

Diolch i raglen [Start the Week](#), rwyf newydd ddarllen *In praise of shadows*, cyfieithiad o gyfrol Siapaneaidd gan Junichiro Tanizaki, sy'n dathlu hoffter y gwareiddiad dwyreiniol o gysgodion ac yn tynnu sylw at ymosodiad ymerodraethol y goleuni gorllewinol ar y diwylliant hwn.

Mae cysgodion yn bwysig i'r Siapaneaidd – o bensaerniaeth, i ffasiwn, i goginio. Y mwya'n byd sy o'r golwg, gorau oll. Llestri tywyll, dillad tywyll ac ystafelloedd eang gyda digon o le i gysgodion.

Y gwrthwyneb i'n diwylliant ni – llestri a lloriau'n sgleinio, llifoleuadau, a mân oleuadau ymhobman, labordai llachar yn lân loyw dan oleuadau didrugaredd a nunlle i'r Gwirionedd guddio.

Byth ers creu'r bwlb trydan mae'r ddelwedd o 'oleuni vs tywyllwch' wedi troi'n rhyfel llythrennol nad oes gan y tywyllwch yr un gobaith o'i ennill. Mae'r ddaear, o'r gofod, yn disgleirio. Prin



Llew (uchaf) a Modron (isaf); gweler: <https://www.johnmeirionmorris.org/ysbrydol/>

fyddwn ni'n profi tywyllwch go iawn nad oes yna oriawr, neu ffôn, neu olau 'stand-by' yn tarfu arno. Cerddwch ein strydoedd ni ganol nos ac mae siopau a busnesau wedi eu goleuo fel canol dydd.

Dwi hefyd wrthi'n darllen *The Darkness Manifesto* gan Johan Eklöf, sy'n adrodd

am y dinistr ddaeth yn sgil ein rhyfel yn erbyn y tywyllwch. Anifeiliaid wedi colli eu rhythm dydd-a-nos, ystlumod yn gwrthod gadael eu clwydi, crwbanod y môr yn deor ac yn llusgo at olau stryd yn hytrach na'r lleuadau a diogelwch y môr, gwyfynod, sy'n gyfrifol am dros hanner y gwaith peillio, yn peidio â bod.

Mae rhai o ddinasoedd Siapan ymysg y dinasoedd hynny sydd wedi eu goleuo fwyaf yn y byd erbyn hyn. Mae'r goresgyniad yn absoliwt.

Braint fawr i mi oedd cael adnabod a chydweithio â'r athrylith John Meirion Morris. Lanwyd erioed mo Oriel Gregynog, y Llyfrgell Genedlaethol, gan arddangosfa debyg i un John yn 2009. Yn fuan wedyn cytunodd i arddangos yn y Morlan yn Aberystwyth, a chynnal sioe *son et lumière* (sain a golau). Trefnwyd goleuadau a darlenniadau ar gyfer 21 Mehefin. Diwrnod hiraf y flwyddyn! Dim cwmwl yn y ffurfafen na chysgod ar gerflun.

Roedd y sioe, fel mae'r cerfluniau, yn dibynnu ar gysgodion. Yn y cysgodion roedd pethau'n dod yn fyw. Edrychwch ar y [wefan ardderchog](#) mae'r teulu wedi ei chreu i ddathlu bywyd John. Edrychwch ar y fideo a dychmygwch y campweithiau yna dan oleuadau labordy. Mi fyddai eu gwirionedd yn diflannu.

Efallai, wrth deithio o Ragfyr i Fehefin eleni, y dylen ni chwilio llai am y goleuni a cheisio'r cysgodion, lle gall y dychmyg fyw a lle mae creaduriaid y nos yn gweld y byd yn wahanol.

Rocet Arwel Jones

CYFLEOEDD CYFFROUS I WEINIDOGAETHU I BLANT, IEUENCTID A THEULUOEDD



Swyddog Plant a Theuluoedd Caersalem, Caernarfon
(2 ddiwrnod yr wythnos)



Swyddog Plant, Ieuencid a Theuluoedd Cynllun Efe,
Bro Eco'r Wyddfa
(3 diwrnod yr wythnos)

Ydych chi'n angerddol dros rannu gobaith Iesu Grist ag eraill? Ydych chi eisiau gweithio gyda phlant, ieuencid a theuluoedd? Ymgeiswch am y swyddi hyn am gyfle i ddatblygu eich doniau mewn lleoliadau cefnogol.

Bydd y ddwy swydd hon yn ffurfio tîm a fydd yn cydweithio ar ran Capel Caersalem a Chynllun Efe.

Am fanylion llawnach am y swyddi a ffurflen gais, cysylltwch ag Arwel E. Jones: eithinoguchaf@btinternet.com.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 3 Chwefror 2023

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Pawb a'i farn ...

Emyn 119 'Duw'n darpar o hyd'

Cyflwyniad

Yn ôl yr hen air, 'rhydd i bawb ei farn ac i bob barn ei llafar'.

Golyga hynny, yn ein hoes ddryslud ni, fod pob barn a goledir gan unigolion rywsut yn gyfwerth â'i gilydd. Mynnir bod hyn yn wirionedd absoliwt – er y cytunir na all pob 'gwirionedd' fod yn wir yr un pryd!

Gan bob unigolyn bellach mae'r hawl i ddewis o 'fwydlen' credoau ein hoes. Ein dewis ni yw dewis beth sy'n 'wir' i ni ein hunain, a hynny er gwaethaf y ffaith fod y syniadau a dderbynnir gennym yn fynych yn gwrth-ddweud ei gilydd. Gan yr hunan a ddwyfolwyd gennym y mae'r hawl absoliwt i fesur bellach!

Nid yw cred o'r fath yn bosib, mewn gwirionedd, mewn byd lle mae'r *Arglwydd* Iesu Grist yn teyrnasu'n derfynol ac yn absoliwt dros bopeth a thros bawb yn ddiwahân.

Yn ein darlleniadau heddiw gwelwn wrthdaro rhwng beth a 'gredir' gennym a'r hyn a 'wneir' gennym. Y mae 'credu' yn ddi-gost. Ond mae gweithredu yn unol â'n profes yn dangos dyfnder ein 'cred'.

Wrth droi at ein darlleniad cyntaf gwelwn fod yna gryn wahaniaeth rhwng beth y mae pobl yn meddwl y dylai crefydd sy'n plesio Duw fod a'r hyn sydd wedi ei gyhoeddi iddynt gan yr Arglwydd.

Darlleniad Micha 6:1–8

Gweddi

Arglwydd Dduw, down ger dy fron gan gydnabod pa mor hunan-falchydym mewn gwirionedd. Hoffem feddwl y medrai ein crefydd, ein haberth, ein cyfraniad pitw rywsut dy foddhau. Gymaint llai costus yw ein safonau ni na'th ddisgwyliad grasol di. Daethost atom gan ddangos i ni mai gwneud cyfiawnder, bod yn garedig a rhodio'n ostyngedig ger dy fron yw hanfod, sail a chanlyniad ein perthynas gyda thi. Arglwydd, caniatâ i ninnau gael ein hadnabod fel pobl ostyngedig, garedig sy'n 'rhodio gyda thi 'mhob man / ac yn dy gwmmi'n byw'. Amen.

Emyn 782 'Dy olau di, fy Nuw'

Yn nechrau gweinidogaeth gyhoeddus Iesu synnwyd yr awdurdodau crefyddol at boblogrwydd Iesu ymhlith pobl nad oeddynt yn 'grefyddol'. Yn y 'Gwynfydau' cyhoeddodd Iesu fod gwerthoedd crefyddol pob oes yn cael eu chwyldroi.

Gwrandewch ar ddisgrifiad Iesu o 'fywyd da'.

Darlleniad Mathew 5:1–12

Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, daethost atom mewn tosturi gan gynnig gobaith y bywyd gwynfydedig i dlodion ysbrydol, i'r galarus, i'r rhai sy'n disgwyl dyfodiad dy deyrnas ac sy'n newynu ac yn sychedu am gyfiawnder. I'r trugarog, i'r rhai a osododd burdeb moes a rhodio gyda thi, beth bynnag fyddo'r canlyniadau, addewaist fendithion y 'bywyd da'. Mewn byd sy'n dyrchafu balchder, anfoesoldeb, creulondeb a thrais, caniatâ i ninnau feddiannu bywyd y rhai sy'n 'wyn eu byd' wrth i ni geisio gwerthoedd amgen dy deyrnasiad di yn ein bywydau.

Darlleniad 1 Corinthiaid 1:18–31 – Barn a doethineb

Beth wnelai'r cyfryngau heb bobl sy'n 'doethineb' ac yn cynnig dadansoddiadau amrywiol ar gyflwr y byd? A beth wnelai cylchgronau heb i 'golofnwyr' rannu eu myfyrdodau doeth er mwyn llenwi modfeddi o brint? Neu dychmygwch raglenni newyddion heb 'vox pops' y cyhoedd i fynegi eu barn am bynciau amrywiol? A beth fyddai cynnwys rhaglenni newyddion heb ddyfaliadau diben-draw am beth fydd yn digwydd nesaf?

Gwahoddir bonedd a gwrêng, dysgedig ac annysgedig, gwybodus ac anwybodus i ddatgan eu barn a'u rhagfarnau am bawb a phopeth. Ac yn yr hinsawdd hon bydd y 'conspiracy theories' mwyaf gwallgof yn cael eu rhannu fel 'gwirionedd' ac yn gwreiddio a ffrwytho yn nychymyg ofnus ein cymdeithas am fod 'rhywun ar y teledu' wedi cael gwisgo rhith o awdurdod wrth iddynt gynnig gwagedd eu hanwybodaeth i'r byd.

Dyw rhai pethau ddim yn newid.

Oherwydd, yn y ganrif gyntaf, yng Nghorinth, fel mewn dinasoedd eraill ar draws yr Ymerodraeth Rufeinig, roedd athrawon gwahanol grefyddau, athroniaethau neu greddau yn pedlra geiriau diddiwedd mewn neuaddau cyhoeddus neu ar gornel strydoedd y ddinas er mwyn ennill dilynwyr iddynt eu hunain.

Ond daeth 'gair am y groes' i dawelu geiriau'r 'doeth', gwybodaeth y 'dysgedig' a chlyfrwch 'ymresymydd yr oes bresennol' (adn. 19). Un neges gan Dduw, un gair i

dawelu stŵr llafar yr holl eiriau dryslyd. Un gair i ddileu ffug ddoethineb daearol y byd (adn. 19). Dyma 'air' a 'doethineb' sydd, yn ôl doethineb y byd, yn ffolineb llwyr. Ond drwyddo datguddiodd Duw ei ddoethineb ei hun. Doethineb ydyw sy'n chwalu dyfaliadau dynol am natur Duw, sy'n 'achub y rhai sydd yn credu' (adn. 2). Dyma air sydd yn 'galw' pobl ato ac yn creu cymdeithas o bobl oedd yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau cymdeithasol, addysgol, tras neu hil. Cymdeithas ydyw a ffurfiwyd ymhlith y rhai a dderbyniodd y neges.

Datguddiodd y 'gair am y groes' mai gwagedd oedd doethineb a chrefyddoldeb y byd.

Nid yw'r Arglwydd yn chwarae plant gyda doethineb gwag a bydol. Ni roddwyd yr 'arwyddion' yr oedd crefyddwyr yn dyheu amdanynt. Ni chynigiwyd i'r doeth eiriau ffansi athronyddol i gosi eu clustiau. Yn hytrach, neges ydoedd oedd yn 'dramgywyd', yn achos sgandal i'r rhai a'i gwrandawodd, a gynigiwyd i'r byd gan yr efengyl.

Neges ydyw am Iesu Grist croeshoeliedig, am Feseia a drechodd angau a phob rhwystr sydd, pan ddiodeffodd hyd at angau'r groes i'n cymodi â Duw. Neges ydyw sy'n chwalu balchder pobl, yn difetha sail ein hymffrost ac yn diddymu ein holl ragdybiaethau am Dduw ac am fywyd. Mae'r 'gair am y groes' yn datgelu ein meddyliau, ein calonau, ein gwir gyflwr gerbron Duw. Y 'gair am y groes', ffolineb yw i'r rhai sydd ar lwybr colledigaeth, ond i ni sydd ar lwybr iachawdwriaeth, gallu Duw ydyw'.

Dyrchafu pobl, eu gwybodaeth, eu doethineb a'u cyfraniad a wna doethineb y byd. Chwalu'r cyfan oll a wna'r gair am y groes. Dyma air sy'n diddymu pob balchder, yn diddymu pob ymfrost gan adael dim ar ôl i ymfrostio ynddo, heblaw am ddaioni Duw 'yng Nghrist Iesu, yr hwn a wnaed yn ddoethineb i ni oddi wrth Dduw, yn gyfiawnder a sancteiddhad a phrynedigaeth'.

Tybed sut ydym ni'n ymateb i'r gair am y groes? Bydd ein hateb yn datgelu ein cyflwr a phwy yr ydym ni'n ymfrostio ynddo heddiw: 'y sawl sy'n ymfrostio, ymfrostied yn yr Arglwydd'.

Gweddi

Arglwydd, rydym am syrthio ar ein gliniau ger dy fron gan gydnabod mai cestyll tywod yw'r crefydd a'r doethineb a welwn ac a glywn o'n cwmpas. Caniatâ heddiw i'th nerth trugarog chwalu ein balchder, a'n tywys at groes Iesu Grist.

Emyn 504 'Gwêl ar y croesbren acw'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru



CennadCymru



@CennadCymru